**Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Diolch am y cyfle i gyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig hon, ac am y gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

Fy mhrif nod fel Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi y gallaf ddarparu cyngor a/neu sylwadau i unrhyw berson. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yn unol â fy rôl fel eiriolwr annibynnol ar ran y Gymraeg a'i siaradwyr, rwyf yn darparu'r sylwadau isod.

## 1. Egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir

1.1. Rwyf yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ("y Bil") ac o'r farn bod angen deddfu er mwyn cyflawni'r bwriad polisi a nodir. Rwyf yn croesawu'n fawr y Bil sydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu maint uchelgais Llywodraeth Cymru dros y Gymraeg. Mae'r ddeddfwriaeth â'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion Cymraeg 2050.

1.2. Ers datganoli, rydym wedi gweld ymdrechion nifer o bolisïau a strategaethau oedd â'r bwriad o gryfhau prosesau cynllunio addysg Gymraeg. Serch hyn, mae bwlch amlwg yn parhau rhwng y taflwybr sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth empeiraidd yr ugain mlynedd ddiwethaf a'r taflwybr damcaniaethol sy'n ganolog i amcanion a thargedau Cymraeg 2050. Mae cyflawni amcanion a gweledigaeth strategaeth Cymraeg 2050 yn ddibynnol ar gynyddu'r niferoedd sy'n gadael y system addysg yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Mae tystiolaeth glir felly bod angen polisïau a deddfwriaeth mwy beiddgar ar gyfer y Gymraeg ym maes addysg a sgiliau, ac rwyf felly yn croesawu'n fawr bod y Llywodraeth yn ymateb yn gadarn i'r her drwy gyflwyno'r Bil hwn.

1.3. Rwyf yn nodi uchod sail resymegol dros ddeddfu, hynny yw, mae'n gam angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Ond mae hefyd angen pwysleisio bod yna sail foesegol ac egwyddorol bwysig i'r polisi ynddo'i hun. Fel mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio, mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd, ac mae'n hanfodol fod gan bob plentyn gyfle gwirioneddol i ddatblygu'n siaradwr Cymraeg hyderus. Mae'n fater o gyfiawnder cymdeithasol bod y system addysg yng Nghymru yn rhoi'r cyfle hwn i bawb. Nid yn unig mae'r Bil hwn yn gyfle i Gymru eto arwain y ffordd ym maes polisi iaith, ond mae'n gosod gweledigaeth eglur a chyffrous o ran dyfodol addysg mewn gwlad fodern ddwyieithog. Mae hyn yn gwbl amserol yng nghyd-destun y datblygiadau eraill arwyddocaol sydd ar droed, gan gynnwys y gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru a diwygio'r gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

1.4. Mae'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn y Bil yn sylweddol, ac yn ymateb i nifer o ddiffygion y gyfundrefn cynllunio bresennol. Mae'n deg dweud bod y Bil yn cynrychioli trobwynt hanesyddol yn natblygiad polisi addysg ac iaith Gymraeg y Llywodraeth. Am y tro cyntaf, fe fydd rhai o dargedau ac ymrwymiadau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys ffocws hollbwysig ar gynyddu defnydd y Gymraeg, sydd wrth gwrs yn ganolog i fy ngwaith i fel Comisiynydd yn ogystal.

1.5. Rwyf hefyd yn croesawu bod y Bil yn cynnwys mecanweithiau deddfwriaethol pwerus fydd yn galluogi dylanwadu yn llawer mwy uniongyrchol ar gyflawni rhai o'r targedau hyn. Mae'r bwriad i ddatblygu fframwaith disgrifio gallu yn y Gymraeg fel canolbwynt polisi cynllunio ieithyddol yn

arloesol, ac yn sail i ddarpariaethau pwysig yn y Bil, er enghraifft y categorïau ieithyddol a'r fframweithiau cynllunio ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol ac ysgol.

1.6. Un o brif amcanion rheoleiddio safonau'r Gymraeg yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, boed hynny drwy dderbyn gwasanaethau cyhoeddus, yn y gweithlu, neu yn ein cymunedau ehangach. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn croesawu'r ddyletswydd sydd wedi ei gosod ar Weinidogion Cymru yn Rhan 1 y Bil i adolygu safonau'r Gymraeg.

1.7. Rwy'n credu fod gan y safonau perthnasol a nodir yn y Bil botensial i wneud gwahaniaeth. Mae ganddynt rôl i chwarae o safbwynt dilyniant ieithyddol a'r berthynas rhwng datblygu sgiliau Cymraeg plant a phobl ifanc drwy'r gyfundrefn addysg a chynyddu defnydd unigolion o'r sgiliau hyn wrth iddynt fynd i mewn i fyd gwaith. Yn ogystal â hynny, mae potensial pellach ar gyfer defnyddio safonau hybu'r Gymraeg fel arf ar gyfer plethu cynllunio ym maes addysg a sgiliau â'r strategaethau ehangach sy'n bodoli ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Rwyf felly yn croesawu'n fawr bod y Bil hwn yn gwneud cyswllt eglur rhwng polisi addysg a chyfundrefn safonau'r Gymraeg.

1.8. Mae adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg hefyd yn adnabod yr angen i gryfhau safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'n argymell y dylid gosod dyletswydd newydd ar gyrff perthnasol i lunio strategaeth cynllunio ieithyddol gymunedol. Mae hefyd yn argymell cymryd camau i symud sefydliadau ar hyd continwwm ieithyddol drwy gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn fframwaith amser penodol.

1.9. Mae effaith y safonau hyn yn weddol gyfyngedig ar hyn o bryd, ond gyda gwelliannau a mwy o gefnogaeth gennym ni fel swyddfa, rwy'n credu y gallent chwarae rhan allweddol yn y defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, ac wrth hyrwyddo a chynnal yr iaith Gymraeg yn ehangach. Gyda'n ffocws cynyddol ar ddeilliannau ein gwaith rheoleiddio, mae'r meysydd hyn yn y safonau yn rhai rydym eisoes wedi eu hadnabod yn rhai sydd o flaenoriaeth i ni, ac rydym yn awyddus i chwarae rôl gynyddol ragweithiol i gefnogi sefydliadau â'r gwaith hollbwysig hwn. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at adolygiad Gweinidogion Cymru o'r safonau, ac i drafod sut orau y gallwn ni fel Comisiynydd gyfrannu ymhellach at gyflawni rhai o amcanion y Bil.

## 2. A oes unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried?

2.1. Y rhwystr amlwg rhag gweithredu darpariaethau'r Bil yw sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Os ydym am i ysgolion a disgyblion symud ar hyd continwwm ieithyddol, yna mae'n anorfod y bydd rhaid i'r gweithlu addysg symud ar hyd y continwwm yn y lle cyntaf. Ni all cynlluniau ar gyfer disgyblion ac ysgolion fynd dim pellach na gallu'r gweithlu i gynnig a datblygu eu darpariaeth Gymraeg. Mae angen ymyrraeth sylweddol yma, a dyma un maes lle mae gan Weinidogion Cymru'r gallu i ymyrryd mewn ffordd uniongyrchol ac arwyddocaol er mwyn cyflawni amcanion y Bil a strategaeth Cymraeg 2050.

2.2. Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes *Gynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg* sydd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ac ymyraethau er mwyn cynyddu gallu'r gweithlu addysg i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, mae'n amlwg y bydd angen edrych eto ar gynnwys a chwmpas y cynllun hwn yn sgil cyflwyno'r Bil. Fe fydd angen datblygu a chyflwyno ymyraethau ar raddfa llawer mwy sylweddol. Mae sefydlu'r Athrofa yn rhan hanfodol o'r ateb, ond rwyf o'r farn bod

angen cyfuno hyn â strategaeth gweithlu addysg genedlaethol a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu uchelgais y Bil, ac a fyddai'n rhoi cyd-destun a chyfeiriad clir i waith yr Athrofa a phartneriaid allweddol eraill.

2.3. Mae sefydlu'r Athrofa yn mynd i'r afael â'r mater allweddol o gynllunio cefnogaeth a hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu addysg. Yr hyn sydd ei angen ochr yn ochr â hyn yw integreiddio'r ddarpariaeth fydd yn cael ei datblygu fel rhan annatod o hyfforddi i ddysgu yng Nghymru, ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg. Hynny yw, mae angen sicrhau bod digon o'r gweithlu addysg yn ymgymryd â'r hyfforddiant fydd yn cael ei gynllunio, a bod hyn yn digwydd mewn ffordd strategol ac ar raddfa sy'n gyson ag amcanion y Bil. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain ar hyn mewn partneriaeth â'r Athrofa a nifer o sefydliadau eraill, er enghraifft y Cyngor Gweithlu Addysg, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r prifysgolion.

2.4. Er enghraifft, gellid adeiladu ar y *Cynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg* presennol drwy ddatblygu fframwaith hyfforddiant ieithyddol pum mlynedd i athrawon fydd yn hyfforddi ac yn dysgu yng Nghymru yn y dyfodol. Rwyf yn ffyddiog y bydd yr Athrofa yn gallu arwain y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth, ond y Llywodraeth sydd â'r gallu i'w wneud yn ofynnol i athrawon newydd ymgymryd â'r hyfforddiant hwn. Mewn cydweithrediad â'r partneriaid a nodir uchod, fe ddylai'r Llywodraeth sicrhau bod rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg yn cychwyn fel rhan greiddiol o bob cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon, ac yna yn parhau fel rhan ofynnol o gyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol athrawon newydd am bedair blynedd cyntaf eu gyrfa.

2.5. Mater arall allweddol y dylid ei ystyried yw'r angen i greu cysylltiad llawer cryfach rhwng yr hyfforddiant iaith Gymraeg fydd yn cael ei gynnig gan yr Athrofa a thargedau'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ymrwymiadau yn y Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, a chynlluniau cyflawni ysgolion. Fe ddylai ysgolion sydd wedi ymrwymo i symud ar hyd y continwwm ieithyddol gael mynediad at becyn pwrpasol o adnoddau a chefnogaeth, gyda hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu fel rhan greiddiol o hyn. Mae angen i'r adnoddau a'r hyfforddiant gael eu blaenoriaethu ar sail strategol ac ar sail y cynllunio cenedlaethol, lleol a lefel ysgol.

2.6. Rwy'n sicr y bydd y Llywodraeth yn cytuno â'r angen i ddatblygu strategaeth o'r fath yn sgil pasio'r Bil. Er hyn, rwyf o'r farn y gellid mynegi'r flaenoriaeth hon yn gliriach drwy osod dyletswydd yn y Bil ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cynllun Gweithlu Addysg Gymraeg fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg a Dysgu Cymraeg. Mae Adran 23(3)(d) eisoes yn crybwyll hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth i ymarferwyr addysg ond nid yw'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu addysg i gyflawni amcanion y Bil. Mae angen i strategaeth gweithlu addysg fod yn ganolog i'r Fframwaith Cenedlaethol, a fy marn i yw y dylid cael adran ychwanegol yn Rhan 4 ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg. Byddai'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu addysg y sgiliau Cymraeg i gyflawni amcanion y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

2.7. Byddai dyletswydd o'r fath yn rhoi sail statudol i osod targedau, i ddatblygu a chyflwyno ymyraethau angenrheidiol ym maes cynllunio'r gweithlu addysg (gweler 2.4 uchod), ac i osod cyfrifoldebau clir ar bartneriaid allweddol ynghylch gweithredu a pherchnogi elfennau o'r cynllun. Byddai dyletswydd o'r fath hefyd yn gyson â gofynion eraill yn y Bil, er enghraifft cylchoedd cynllunio ac adrodd y Fframwaith Genedlaethol a'r cynlluniau strategol lleol Cymraeg

mewn addysg. Byddai hyn yn un ffordd amlwg o gryfhau'r Bil ac o fynd i'r afael ag un o brif heriau ei weithredu.

## 3. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth

3.1. Ar y cyfan, rwyf o'r farn bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir yn y cyd-destun hwn. Er bod llawer o'r materion pwysig am gael eu cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn cynnwys digon o fanylder ynghylch sylwedd y darpariaethau fydd mewn is-ddeddfwriaeth. Un mater sydd yn destun pryder fodd bynnag, yw diffyg manylder ynghylch natur y categorïau ieithyddol.

3.2. Rwyf yn derbyn manteision diffinio ac egluro'r categorïau yn fwy manwl mewn is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae angen mwy o fanylder a sicrwydd ar wyneb y Bil ynghylch natur sylfaenol y categorïau hyn. Mae hwn yn fater rhy bwysig a sylfaenol i fod mewn rheoliadau yn unig; mae'n gwbl greiddiol i ystyr a goblygiadau gweddill y Bil.

3.3. Fel rwyf yn ymhelaethu arno isod, mae'n hanfodol bod y Bil yn gwarchod ac yn darparu ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg – ac mae'r categorïau ieithyddol yn rhan annatod o sicrhau hyn. Rwyf yn dymuno cael eglurder y bydd y categori 'Prif Iaith – Cymraeg' yn adlewyrchu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg fel y'i deallir ar hyn o bryd. Un ffordd o ddarparu'r eglurder hwn fyddai cynnwys cymal ychwanegol yn Adran 10 y Bil fyddai'n nodi isafswm ar gyfer amrediad y categori iaith 'Prif Iaith – Cymraeg'. Er enghraifft, gellid nodi na chaiff Gweinidogion Cymru wrth bennu'r amrediad ar gyfer y categori 'Prif Iaith – Cymraeg' bennu isafswm ar gyfer yr amrediad sy'n llai na 80% o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

3.4. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod Adran 17(2)(a) yn atal newid categori iaith ysgol o gategori 'Dwy Iaith' i gategori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg', a bod Adran 17(2)(b) yn atal newid categori iaith ysgol o gategori 'Prif Iaith – Cymraeg' i gategori 'Dwy Iaith; neu gategori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Fel mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, mae'r egwyddor na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol yn hynod bwysig. Er bod Adran 17 y Bil yn atal rhag llithro o un categori i'r llall, nid wyf o'r farn bod y Bil yn ddigon cadarn ynghylch atal llithro am yn ôl o fewn amrediad categori. Hynny yw, mae'n bosib y bydd amrediad y categorïau yn eang iawn, ac y bydd ysgolion yn gallu cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg, a hynny heb newid categori iaith. Credaf y byddai modd cryfhau Adran 14(1)(e) y Bil er mwyn ei gwneud yn hollol eglur mai'r disgwyliad yw y bydd cynlluniau cyflawni ysgolion yn nodi cynigion ar gyfer cynnal neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.145) yn nodi'n glir y bwriad polisi hwn. Byddai hyn yn rhoi rhagor o sicrwydd eto ynghylch dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg fel y'i deallir ar hyn o bryd.

## 4. A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?

4.1. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Bil hwn â'r amcan o godi safonau o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a hefyd â'r bwriad o ysgogi mwy o ysgolion i symud ar hyd continwwm ieithyddol. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus nad yw'r dyhead i godi safonau yn y sector cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn anfwriadol yn golygu llithro o ben arall y continwwm. Rwyf am i'r Bil fod mor gadarn â phosib ynghylch gwarchod a sicrhau dyfodol addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg.

4.2. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o greu siaradwyr Cymraeg hyfedr. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu

niferoedd disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch y continwwm ieithyddol yn hanfodol yng nghyd-destun gweledigaeth Cymraeg 2050. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun cynyddu defnydd o'r Gymraeg, sydd nid yn unig yn ganolog i amcanion y Bil hwn ond hefyd i fy ngwaith i fel Comisiynydd.

4.3. Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (t.21) yn nodi mai *'addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd.'* Mae'r strategaeth yn gwbl eglur bod dau brif amcan cysylltiedig o ran cyfraniad y sector addysg i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr ac i ddyblu defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050. Y cyntaf yw cynyddu'r niferoedd o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yr ail yw gwella a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog fel bod mwy o'r disgyblion hyn yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r taflwybr i'r miliwn yn seiliedig ar gyflawni dau set o dargedau sy'n ymwneud â'r strategaethau cysylltiedig uchod. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae cydnabyddiaeth yma o arwyddocâd addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg yng nghyswllt sicrhau cymaint â phosib o siaradwyr Cymraeg hyfedr, sy'n fwy tebygol o ddefnyddio a throsglwyddo'r iaith.

4.4. Mae'r Bil mewn sawl man yn ei gwneud yn glir bod y bwriad polisi uchod yn parhau. Er enghraifft, mae Adran 23(5)(b) yn gwahaniaethu rhwng targedau;

(i) I gynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg mewn ysgolion categori 'Prif Iaith – Cymraeg' yn eu hardaloedd
(ii) I gynyddu nifer yr ysgolion sy'n ysgolion categori 'Dwy Iaith' neu gategori 'Prif Iaith – Cymraeg' yn eu hardaloedd
(iii) I gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion categori 'Dwy Iaith' ac ysgolion categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg; yn eu hardaloedd'

Mae Adran 23(3)(c) hefyd yn cyfeirio at hybu addysg mewn ysgolion categori 'Prif Iaith – Cymraeg' ac ysgolion categori 'Dwy Iaith', a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hynny.

4.5. Mewn adrannau eraill o'r Bil fodd bynnag, nid oes yr un eglurder. Yn hytrach mae'r Bil yn cyfeirio at y cysyniad mwy cyffredinol o *'gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'*. Mae'r Bil yn egluro mai ystyr 'addysg Gymraeg' yn y ddeddf yw:

(i) Addysgu'r Gymraeg
(ii) Addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

Gall *'cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'* felly olygu cynyddu addysg 'Prif Iaith – Cymraeg' neu gynyddu darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion 'Dwy Iaith' neu 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Ond nid yw'r cysyniad o *'gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg'* yn gwahaniaethu rhwng y ddau. Er enghraifft, mae Adran 1 (Targedau strategaeth y Gymraeg) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu targedau ynghylch *'cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'*. Yn yr un modd, mae Adran 28 (Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg) yn sôn am hybu a hwyluso *'addysg Gymraeg', 'gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'*, a '*gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'*. Byddai'r adrannau hyn o'r Bil yn elwa o fod yn gliriach o ran bwriadau polisi Llywodraeth Cymru, hynny yw, bod angen ffocws penodol ar ehangu addysg 'Prif Iaith – Cymraeg'.

4.6. Rwyf o'r farn y byddai'r Bil yn fwy cadarn ac eglur petai gwahaniaethu cyson trwyddo rhwng dau brif amcan cysylltiedig y Bil, sef 1) i gynyddu niferoedd y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg mewn ysgolion categori 'Prif Iaith – Cymraeg', a 2) i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion categori 'Dwy Iaith' ac ysgolion categori 'Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg'. Rwyf o'r farn bod angen edrych eto ar hyn er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb rhwng gofynion Strategaeth y Gymraeg (Adran 1), y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg (Adran 23), a Chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn Addysg (Adran 28). Ac eithrio Rhan 3 lle cyfeirir at gysyniad darpariaeth addysg Gymraeg at bwrpas diffinio categorïau, rwyf o'r farn y dylid osgoi cyfeirio at y cysyniad annelwig ac anfanwl o *'gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg'*. Bydd hyn yn cyfrannu at osgoi unrhyw amwysedd yn nehongliad a gweithrediad y Bil.

## 5. Beth yw goblygiadau ariannol y Bil (rhan 2)?

5.1. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn trafod cyllideb yr Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, nid oes yma lawer o eglurder ynghylch beth yn union fydd hyd a lled y disgwyliadau ar yr Athrofa yn y cyd-destun hwn, nac ychwaith faint o gyllid fydd ar gael er mwyn cyflawni hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol (t.152-153) yn nodi eu bod *'yn tybio y daw'r adnoddau i ddarparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg yn yr Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol o rywle arall yn y system…'* ond nad yw'n *'bosibl nodi o ble caiff yr adnoddau eu symud na darparu costau manwl cywir ar gyfer Busnes fel Arfer nac Opsiwn 2 nes i'r Adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru i wella ysgolion ddod i ben'*. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol chwaith yn cynnwys costau rhaglenni'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y dyraniadau cyllid hollbwysig i ddarparwyr cyrsiau hyfforddiant dysgu'r iaith Gymraeg i oedolion.

5.2. Os am wireddu amcanion y Bil hwn, fe fydd angen sicrhau cyllid digonol i gynllunio a darparu hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu addysg ar raddfa llawer mwy sylweddol na sy'n bodoli ar hyn o bryd (gweler pwynt 2.3 uchod). Mae'n bosib y bydd symud adnoddau o rannau eraill o'r system yn galluogi'r Athrofa a phartneriaid allweddol eraill i wneud mwy na sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Ond mae'n bosib y bydd angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn cynnig hyfforddiant ieithyddol i nifer sylweddol yn fwy o'r gweithlu addysg yn y dyfodol. Fel rwyf eisoes wedi egluro yn fy ymateb i'r ail gwestiwn uchod, rwyf o'r farn y bydd angen datblygiadau pellach o safbwynt strategaeth genedlaethol a chynhwysfawr ar gyfer sicrhau hyfforddiant ieithyddol i weithlu addysg y dyfodol. Mae'n dilyn felly fy mod hefyd yn awyddus i sicrhau bod adnoddau a chyllid digonol ar gael i gyflawni hyn.

5.3. Fel mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, mae mwyafrif goblygiadau ariannol y Bil yn disgyn ar gyllidebau a chostau gweithredol cylchol sydd eisoes yn bodoli. Un goblygiad amlwg i basio'r Bil hwn fydd yr angen i'r cyllidebau hyn hwyluso cyflawni amcanion y Bil. Un o'r meysydd pwysicaf lle mae angen sicrhau bod hyn yn digwydd yw gwariant cyfalaf ar ysgolion y dyfodol. Mae'n hanfodol bod y cynlluniau cyfalaf y cytunir arnynt rhwng y Llywodraeth ac awdurdodau lleol fel rhan o'r *Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy* yn hwyluso cyflawni'r targedau cenedlaethol a lleol fydd wedi'u gosod drwy ddarpariaethau'r Bil hwn.